

Gweddïo drwy'r Ysgrythur

“Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf.” (adn. 1)

Beth am ddarllen Salm 23:1–6 ac yna myfyrio

Buom yn siarad ddoe am arfer llawer o bobl dduwiol i sicrhau mai'r meddyliau cyntaf sydd yn dod iddynt yn y dydd yw meddyliau am yr Arglwydd. Arfer arall yr wyf wedi ei ddarganfod ymhlith y duwiol yw'r arfer o weddïo drwy yr Ysgrythur. Ystyr hyn yw i gymryd adran o'r Ysgrythur a'i defnyddio i siarad gyda'r Arglwydd mewn gweddi.

Mae Salm 23, y Salm yr ydym wedi ei darllen heddiw, yn enghraifft ardderchog. Mi fuasai'n bosibl gweddïo fel hyn: “O Dad, rwy'n diolch i ti mai ti yw fy mugail. Oherwydd hyn, ni fydd eisiau unrhyw beth da arnaf. Rwyf mor ddiolchgar i ti dy fod yn gwneud i mi orwedd mewn porfeydd gwelltog ac yn arwain fi wrth ymyl dyfroedd tawel, y ffordd yr wyt yn adfer fy enaid ar adegau pan fo anawsterau yn fy wynebu, y ffordd yr wyt yn fy arwain yn llwybrau cyfiawnder, yn dangos y gwahaniaeth i mi rhwng yr hyn sydd yn iawn a'r hyn sydd yn anghywir. Ni allaf ddiolch digon i ti. Marwolaeth oedd fy ngelyn cyn i mi dy adnabod di, ond bellach nid oes arnaf ofn y cysgodion tywyll, oherwydd yr wyf yn ymwybodol o'th warchodaeth dros fy mywyd. Rwy'n gwybod fy mod am farw, ond rwy'n gwybod hefyd fy mod am fyw eto. Mae hyn yn gysur mawr i mi. Yr wyf am dy ganmol, ac am dy fendithio, oherwydd mae dy eneniad yn orchudd fel coron ar fy mhen gan dy fod yn ymhyfrydu ynof fi ac yn tywallt i'm bywyd dy gariad diderfyn. Mae fy nghwpan wastad yn llawn. Diolch nad hanner profiad yw fy mhrofiad i. Mae dy radlonrwydd yn peri i mi orlifo. Bendigedig fyddo dy enw di am byth.

Dim ond i ni droi ein sylw at Air Duw, mae'n sylw ni yn cael ei droi at Dduw ei hunan. Ond wrth inni weddïo fel hyn, mae yna ffocws mwy clir i'r gweddïau. Pan fu i berson duwiol fy nysgu i weddïo fel hyn drwy yr Ysgrythur, fe drawsnewidiwyd fy mywyd gweddi, a daeth Duw yn fwyfwy real i mi. Rwy'n cymeradwyo'r arfer yma i chi hefyd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 100:1–5; 121:1–8; Actau 4:23–31

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut fu i'r apostolion weddïo a beth oedd y canlyniad?
2. Beth am weddïo drwy Salm 100 a Salm 121?

Gweddi

O Dduw, fe fu i ti ysbrydoli geiriau ac fe ddaeth y geiriau yn eiriau Duw. Cynorthwya fi i ganiatáu i'm meddyliau a'm geiriau gael eu meddiannu gan dy Ysbryd di. Rwyf am i'm meddwl fod arnat ti ar ddechrau'r dydd, ar hyd y dydd, ar hyd fy mywyd. Yn enw Iesu. Amen.